2012 - Blwyddyn y BioGyfri Cymraeg

Yn 2012 mi fydd Prosiect Llén Natur yn canolbwyntio ar gofnodi bywyd gwyllt.

Mi fyddwn yn cydweithio gyda chwmni arbenigol Cofnod ac eraill - llu o arbenigwyr by-wiog. Bydd sawl gweithgaredd difyr i selogion Prosiect Llén Natur, aelodau Cymdeithas Edward Llwyd ac unrhyw un sydd á diddordeb mewn bywd gwyllt.

Cynhelir pedwaredd Cynhadledd Prosiect Llén Natur ar y thema BioGyfri ar 24 Tachwedd ym Mhlas Tan y Bwlch

BioFlits 2012

Ymunwch â ni ar ddiwrnod BioFlits ar 30 Mehefin

Mi fydd criw o arbenigwyr yn ein tywys trwy goedydd hyfryd Plas Tan y Bwlch i gofnodi pryfed, planhigion, adar, ffwng, gwyfynod a llu o rywogaethau cyffredin a phrin eraill gan ddefny-ddio eu henwau Cymraeg....creaduriaid fel rhain

Ni fydd angen unrhyw wybodaeth mwy na'r cyffredin.

Gwyliwch y wasg a'r cyfryngau am fwy

Mae'r draenog yn prinhau medde nhw.

Beth am gofnodi LLE a PHRYD y gwelsoch chi ddraenog byw neu farw yn ystod 2012.



Dewisiwch eich ffordd o gofnodi eich draenogod:

1) trwy "Cysylltwch" ar wefan Llên Natur

2) trwy ffurflen ar-lein ar **http://www.cofnod.org.uk/LinkInfo.aspx?ID=3 link**

3) Cofnod, Intec, Ffordd y Parc, Parc Menai, Bangor, Gwynedd. LL57 4FG (01248) 672603